
# SOTHACH

Rhif 44
Medi
1992



MANIC STREET PREACHERS - GO IAWN, GO WIR, GO GO GOCH

GORKYS - YN HOLLOL ZYGOTIC

MALCOM NEON - DYN O FLAEN EI AMSER

PA MOR CRAP OEDD Y 'STEDDFOD

£1.00



# "Mae pecyn myryfyrwyr Banc Lloyds yn dda am bron popeth. (Mwy nag y gallwn ei ddweud am fy ngrant).

Mewn trybini ariannol?

Mae pawb yn gwybod ei bod hi bron yn amhosib i gael eich arian i bara tan ddiwedd y tymor.

Ond peidiwch â poeni. Rŷn ni ym Manc Lloyds wedi rhoi pecyn myfyrwyr at ei gilydd a ddylai ddatrys o leiaf rhai o'ch pryderon ariannol.

I ddechrau, os oes angen, gallwch wneud cais am or-dyniad di-log o i fyny at £400, ar unrhyw adeg tra yn y coleg.

Gallwch wneud cais hefyd am gerdyn Taliadau, i'w ddefnyddio fel cerdyn arian parod £200-y-dydd, os yw eich cyfrif mewn cyflwr i gynnal hyn; fel cerdyn debyd; neu fel cerdyn gwarant sieciau canpunt.

Yn well byth, does dim taliadau trafodion ar eich cyfrif; a thelir llog misol ar eich gweddill credyd.

Ac os yn eich blwyddyn gyntaf, cewch Gerdyn Rheilffordd Pobl Ifanc a cherdyn Eurocheque yn rhad ac am ddim.

Mae'r neges yn glir: os am i'ch grant fod yn dda am yn fwy na'r pethau sylfaenol dymor nesaf, baglwch hi i Fanc Lloyds.

**Banc Lloyds**

Y BANC TRYRYW.

Mae Cyfrif Myfyrwyr Banc Lloyds ar gael yn unig i fyfyrwyr llawn amser 18 oed neu'n hŷn sydd yn gallu cyflwyno tystiolaeth o'u statws fel myfyrwyr e.e. llythr grant awdurdod lleol, siec grant, llythyr derbyniad gan goleg neu brifysgol. Mae'r cynnig Cerdyn Rheilffordd ar gyfer cyfrifon a agorir cyn neu ar 31 Rhagfyr 1992 yn unig. Mae benthyciadau a chaniatáu Cerdyn Taliadau yn ddibynnol ar asesiad y Banc o'ch statws ariannol a rhaid i chi fod yn 18 oed neu'n hŷn i wneud cais. Ar gyfer myfyrwyr o dramor, mae'n bosib mai ond darnau o'r cynnig fydd ar gael. Mae Banc Lloyds yn aelod o IMRO, Cynllun Ombudsman Bancio ac yn llofnodydd Côd Dulliau Gweithredu Bancio. Manylion ysgrifenedig o'n telerau credyd ar gael gan Fanc Lloyds Ccc, 71 Stryd Lombard, Llundain EC3P 3BS.

AR Y CLAWR: **MANIC STREET PREACHERS**

# SOTHACH

**RHIF 44** **MEDI 1992** **£1.00**


**SIART CYTGORD**
Yr ugain ucha
**TUDALEN 4**

**PIGION PIWSIG - PIGION PELLACH**
Yr arswyd!
**TUDALEN 5 - 6**

**ARLOESWR - DYN CYN EI AMSER**
Y Dyn Tawel
**TUDALEN 7**

**HEI!, HEI!, NI YW'R GORKYS**
Cyfweliad zygotic
**TUDALEN 8**

**ADOLYGS BYW**
Sesiwn Fawr Dolgellau - Geraint Jarman
**TUDALEN 10**

**CARTŴN**
Antur arall gyda U Thant
**TUDALEN 11**

**MANIC STREET PREACHERS**
Go Iawn
**TUDALEN 12**

**FFWRDD I'R FEILE 92**
Trip i Tipp
**TUDALEN 14**


**HEI BEIBI, CYT A BYG**
D.I.
**TUDALEN 16**

**ADOLYGIADAU**
Y Farn
**TUDLEN 17**

**ANNWYL SOTHACH!**
Ia . . . ia . . . .ia . . . .
**TUDALEN 22**



**SOTHACH!, 8 RHES VICTORIA, BETHESDA, GWYNEDD LL57 3AG.**
**FFÔN : (0248) 600 578 FFACS : (0248) 600 587**

*MALCOM NEON*



*GORKYS*



*MANICS*



*D.I.*



NID YW'R GOLYGYDDION NA'R CYHOEDDWR O ANGENRHEIDRWYDD YN CYDWELD A PHOB SAFBWYNT A FYNEGIR GAN EIN CYFRANWYR. CYHOEDDWYD GAN GWMNI CYTGORD CYF. AC ARGRAFFWYD GAN O. JONES, LLANGEFNI.



ⓗ 1992 CWMNI CYTGORD CYF. 1992 © CEDWIR POB HAWL. NI ELLIR ATGYNHYRCHU UNRHYW RAN O'R CYHOEDDIAD HWN NA'I GADW MEWN CYFUNDREFN ADFERADWY NA'I DROSGLWYDDO MEWN UNRHYW DDULL NA THRWY GYFRWNG ELECTRONIG, MECANYDDOL, FFOTOGOPIO, RECORDIO, NA FEL ARALL, HEB GANIATAD YMLAEN LLAW GAN Y CYHOEDDWYR.

# UGAIN UCHA SIART CYTGORD


1. DAFYDD IWAN (6)
2. BEGANIFS (1)
3. MONIARS (4)
4. Y PROFIAD (-)
5. STEVE EAVES A'I DRIAWD (18)
6. HOGIA LLANDEGAI (5)
7. TYNAL TYWYLL (-)
8. TŶ GWYDR (-)
9. PLETHYN (-)
10. BOB DELYN A'R EBILLION (-)
11. CERRIG MELYS (-)
12. GERAINT JARMAN (-)
13. ANHREFN (2)
14. Y CYRFF (-)
15. MYNEDIAD AM DDIM (-)
16. JESS (19)
17. FFA COFFI PAWB (3)
18. BYD NEWYDD (-)
19. MEIC STEVENS (10)
20. GERAINT LOVGREEN A'R ENW DA (-)




DAFYDD IWAN




BEGANIFS



Y PROFIAD



STEVE EAVES A'I DRIAWD



HOGIA LLANDEGAI

# PiGiON PiWSiG

**MEFIS MELYS IAWN**
Gwyliwch a chlustfeiniwch am sŵn sidanaid CERRIG MELYS mewn ffilm newydd gan y cyfarwyddwr PAUL TURNER yn yr hydref.
Bydd y ffilm, "Cwm Hyfryd", yn cynnwys y caneuon "Bach" a "Glan" gan y grwp o Gynogdigion.

**IAN RUSH**
Mae crysau-T IAN RUSH (y grwp) yn dal ar gael am £6.50 gan Marc Jones, 31 Stryt y Bont, Pynycae, Wrecsam, Clwyd. Ffôn: 0978 843 401.
Ar y crysau gwelir cynllun gwychfawr sy'n dangos IAN RUSH ( y peldroediwr) yn sgorio'r gol enwog yn erbyn Yr Almaen ar Barc yr arfau.

**DYLANWADAU DRWG DROS BEN**
Daeth y grwp DYLANWAD DRWG o Ben Llŷn yn gydradd gyntaf yn y gystadleuaeth grwp pop yn 'Steddfod Aber. Bydd y grwp yn cychwyn recordio eu caset cynta' cyn hir a chofiwch bod crysau-T y band ar gael. Cysylltwch â Dafydd Gibbard ar 0785 612 903 neu Jo Webb ar 0766 522 715.

**HOLLOL BLYDI PSYCHO**
Mae'r trydydd rhifyn o'r ffansin "Psycho" mâs nawr, byt. Mae'n cynnwys cyfweliadau (+ discograffis) gyda DATBLYGU, YR ANHREFN, TŶ GWYDR, A5, LLWYBR LLAETHOG a'r CELFI CAM.
Mae 'na golofn ddadleuol hefyd gan yr anhygoel DAVE 'MACHER'; JONES.
Hyn i gyd o fewn 30 tudalen ar gael trwy'r post am ddim ond £1.00 (sy'n cynnwys post a chludiant) gan Steffan Cravos, 8 Penybanc, Tanerdy, Caerfyrddin, Dyfed SA31 2HA.

**FFEST ARALL**
Cofiwch bod WNCL FFESTR wedi rhyddhau eu caset cynta' un erioed a'i fod o'n werth ei glywed a'i goleddu. Mae'r FFESTRIAID am i'r Cymry i gyd, lle bynnag y bont, i glywed y blydi thing. Cysylltwch â nhw ar: 0745 331 411.

**UN DULL (LLAWER O AMRYWIADAU GWAHANOL)**
Hei, beth am ychydig o drawsblannu diwylliannol, cyfnewid syniadau tros y muriau sydd rhyngddom ac ati a chreu cysylltiadau newydd. Bydd y grwp reggae, ONE STYLE, o Lundain yn dychwelyd i Gymru ar daith y mis hwn.
Ar daith hefo nhw bydd BYD NEWYDD a SYSTEM SAIN CREATION REGGAE. Manylion gan Bryn ar: 0286 85 523.




IWAN (ADDEWID), GLYN (SORIANT), DARREN (KELA), BOBS (BYD NEWYDD), JACKIE (JINA), HYWEL (AROS MAE), llun: trwy garedigrwydd N. Wales Chronicle

# PIGION PELLACH

**BABWNS LLOERIG**
Bydd label SOTEDIGEZ yn ail-ryddhau sengl glasurol y BABWNS LLOERIG cyn diwedd y flwyddyn. Mae'r traciau gwreiddiol wedi eu trosglwyddo o dap magnetig i fformat DAT ac wedi eu hail brosesu trwy ddulliau cyfoes i swnio'n well nag erioed.
Ynghyd a'r clasuron, "Hebogau Fy Nhad" a "Saethu Deinosoriaid yn yr Oes Jiwrasig" bydd y sengl hefyd yn cynnwys cyfweliad gyda'r grwp a ddarlledwyd ar Radio Dyffryn Tanat ym 1983. Manylion: 0893 221 469.

**AROS AM DAP**
Bydd AROS MAE yn mynd i'r stiwdio cyn hir i recordio caneuon ar gyfer caset newydd. Hwn fydd yr olynydd hirddisgwyledig i'r anhygoel "Agua Mala Spiro Gyra".

**DWLI DELYNAIDD**
Ar ol blynyddoedd hir a llafurus yn Stiwdio Ofn yn recordio bydd "Gad", albym newydd hirddisgwyledig newydd BOB DELYN A'R EBILLION, yn ymddangos ar label hyfryd CRAI cyn hir.

**TYSTIOLAETH YNGHYLCH DISGO**
Cawsom dystiolaeth yn ddiweddar ynglyn a bodolaeth disgo Cymraeg! Mae DISGO TYSTION ar gael am bris rhesymol ac yn cynnwys amrywiaeth amesing o gerddoriaeth o pop, dawns, hip hop, techno, ref, reggae, indie, 60au, gwertin a chlasurol. Manylion: 0267 233 476.

**CYNHADLEDD**
Trefnwyd cynhadledd i'r wasg arbennig o yummy gan label CRAI ym mwyty Rochelles, Caernarfon, yn ddiweddar i gyhoeddi'r cyngerdd "Cofi Pop" diweddar yng Nghlwb Peldroed Caernarfon ac i lansio casetiau newydd gan y label. Yn bresennol roedd haid o bop stars megis YR ADDEWID, SORIANT, KELA, BYD NEWYDD, JINA ac AROS MAE yn sglaffio bwyd ac yn yfed gwin. Yn y llun gweler rhai o'r enwogion hyn newydd gael llond eu boliau o bizza, quiche, bara garlleg ac ati.

# CALENDR MEDI

GIGS

| | | |
|---|---|---|
| Medi 2 | NOSON COFI POP | Ship & Castle, Caernarfon |
| Medi 3 | TWM CETYN | Albert, Caernarfon |
| | SIAN JAMES | Ship & Castle, Caernarfon |
| Medi 4 | HOGIA LLANDEGAI | Fferm Bodhunod, Cemaes Amlwch |
| | NOSON YN ERBYN APARTHEID | Ship & Castle, Caernarfon |
| Medi 5 | SOBIN A'R SMAELIAID | Sioe Llandysul |
| Medi 11 | HOGIA LLANDEGAI | Tafarn Beca, Trelech |
| | GWYL WERIN Y BALA | |
| Medi 12 | SOBIN A'R SMAELIAID (pnawn a nos) | Clwb Ysbyty Glangwili Caerfyrddin |
| | HOGIA LLANDEGAI | Meinciau, Cwm Gwendraeth |
| Medi 18 | MONIARS | Goat, Penygroes |
| Medi 26 | ONE STYLE<br>BYD NEWYDD<br>CREATION REGGAE | West Indian Sports & Social, Mosside |
| Medi 28 | ONE STYLE<br>BYD NEWYDD<br>CREATION REGGAE | Ship & Castle, Caernarfon |
| | (Tocynnau ar gael yn y dafarn £2.00. Er budd GISDA ac Antur Waunfawr) | |
| Medi 29 | ONE STYLE<br>BYD NEWYDD<br>CREATION REGGAE | Undeb Myfyrwyr, Bangor |
| Medi 30 | ONE STYLE<br>BYD NEWYDD<br>CREATION REGGAE | Undeb Myfyrwyr, Abreystwyth |
| Hydref 9 | ONE STYLE | Bryn Cynan, Nefyn |

# ARLOESWR – DYN CYN EI AMSER

Cyfoethog Jyhones yn bwrw golwg dros yrfa

## MALCOLM NEON



Mae'n amser eithaf cynhyrfus i bop Cymraeg gyda lot o fandiau da o gwmpas a rhai yn chwarae cerddoriaeth synth/techno pop fel Eirin Peryglus, CIA, Ail Gyfnod a Nid Madagascar ond roedd un dyn yn chwarae'r math yma o gerddoriaeth mor bell nôl a 12 mlynedd a'r dyn hwnnw oedd Malcolm Neon.

Galwyd ef y "dyn tawel" gan Eurof williams, cyn-gynhyrchydd "Sosban" ar Radio Cymru, am ei fod yn eitha' tawel a diymhongar. Y mae celf yn bwysig i Malcolm ac un o'i ddylanwadau yn y maes oedd Andy Warhol. Yn y byd cerddorol ei arwyr yr adeg honno oedd Eno, gynt o Roxy Music a John Foxx.

Ar dechrau'r 80au roedd yn brofiad diddorol gweld Malcolm ar lwyfan achos doedd *neb* yn canu yr un fath o gerddoriaeth ag ef a doedd lot o'r gynulleidfaoedd yr adeg honno ddim yn gwybod beth i wneud ohono fe! Yn frodor o Aberteifi, roedd (ac y mae nawr) yn ffrind agos i fois Ail Symudiad - ffrindiau ers yr ysgol ac, fel nhw, doedd o ddim yn foi coleg fel y rhan fwyaf o fandiau yr adeg honno. Gwnaeth Malcolm sawl gig gyda Ail Symudiad ar hyd a lled Cymru ond doedd o ddim yn or-gigio. Ei gig cyntaf oedd Llanbadarn Roc a gynhaliwyd yn y Neuadd Fawr yn Aberystwyth yn nechrau'r 80au, ond yr oedd yn well gan Malcolm arbrofi yn y stiwdio na chwarae'n fyw ac i'r pwrpas hyn sefydlodd stiwdio 4-trac a ffurfio label ei hun - Casetiau Neon.

"Chwilio Am Wyddoniaeth" a ryddhawyd yn hydref 1980 oedd ei gaset cyntaf. Ar y label yr adeg honno roedd Datblygu a mawr oedd dylanwad Malcolm ar y bechgyn hyn. Ymysg yr artistiaid eraill roedd Pysgod Melyn Ar Draws (Glyn Goll) a Meibion Mwnt. Rhyddhawyd 17 o gasetiau a'i stiwdio fechan a Malcolm oedd yn gwneud y gwaith celf gan amlaf ar y cloriau. Dyw llawer o Gymry ddim yn gwybod efallai ei fod hefyd yn dipyn o arlunydd, yn enwedig yn y dull "modern' a pop art. Gwnaeth Malcolm sawl ymddangosiad ar y teledu a byddai ei fideo o'r gân "ART!" ym 1981 ddim edrych mas o le ar "Fideo 9" heddiw.

Yr artistiaid mae'n gwrando arnynt y dyddiau hyn yw Bill Nelson, Durutti Column, Cabaret Voltaire, Peter Gabriel, Die Krupps ac, yn y byd roc, yr Alarm.

Mae ganddo dâp o'i oreuon allan yn y 'Steddfod gyda chlasuron fel "Llygaid yr Haul", "Angel Wen", a "Beth Sydd yn dy Feddwl Di?" Enw'r tâp yw "Heno Bydd yr Angylion yn Canu".


Mae Malcolm wedi dangos diddordeb mewn gwneud rhywbeth yn ei stiwdio unwaith eto. Gwneud neu beidio, mae yn 'dad' i lot o gerddoriaeth Gymraeg y dyddiau hyn. Dyn addfwyn - ni anghofiwn byth. A bydd yr haul yn gwenu.....

**Cyfoethog Jyhones**

## Discograffi Casetiau Neon

Malcolm Neon - *"Chwilio Am Wyddoniaeth"* 1980
Malcolm Neon - *"Traddodiad"* 1980
Malcolm Neon - *"Mwnt"* 1981
Malcolm Neon - *"Colli Adlais Mewn Amser"* 1981 (FFLACH)
Malcolm Neon - *"Data"* 1982
Malcolm Neon - *"O Aberteifi a Chariad"* 1982
Datblygu - *"Amheuon Corfforol"* 1982
Datblygu - *"Trosglwyddo'r Gwirionedd"* 1983
Meibion Mwnt - *"Seren China"* 1983
John Wyn Tomos/Malcolm Gwyon - *"Gorwel"* 1983
Datblygu - *"Fi Du"* 1984
Datblygu - *"Y Gorffennol i'r Presennol"* 1984"
Malcolm Gwyon - *"Awel y Mor"* 1984
Datblygu - *"Caneuon Serch i Bobl Serchog"* 1984
Pysgod Melyn Ar Draws - *"Budd-ig"* 1984
Malcolm Gwyon - *"Chwyldro!"* 1985
Malcolm Gwyon - *"Toriad"* 1985

# HEI!, HEI!, NI YW'R GORKYS



**CYFWELIAD GYDA GORKYS ZYGOTIC MYNCIS - UCHOD: DIM PERTHYNAS**

Yn hwyr un noson a'r ddiwyfr wrth fy nghlust dde, clywed y Gorkys am y tro cyntaf. Nia Melville yn rhoi'r gofodgwifrol i "Allumette", tâp cyntaf y Gorkys. Fi'n meddwl "Waw! Yo, wychreu. Sŵn melodaidd ond trawahanol. Licio nhw'n syth, licionhw'n fawr yn syth. Heb oedi eu gosod nhw yn y cwpwrdd da, da yn y meddwl. Tros y misoedd clywed amdanyn nhw, pytiau, pigion annigonol, y myth yn dechrau tyfu, peniogion, cŵl dŵdars, ffigurau annweledig. Ffonio un o'r aelodau a gofyn cawn i gopi o "Allumette". Addo gyrru un, ddim yn cyrraedd, y safle yn tewhau.
Steddfod 1992, cyfle i gael siarad â'r arwyr anadnabyddus. Dim siomedigaeth. Casgliad o gerddorion (grwp) arbennig o reu ac 'eithaf oer'. Gwrandewch.

Peiriant Pleser?
"Sesiwn recordio i Merseysound..."
100 copi, cymysgedd o sesiynau recordio a gwaith cynhyrchu preifat. 10 cân newydd a hen, newydd yn bennaf. Pob cân yn wahanol,ond a chefndir cyffredinol o sŵn melodaidd pleserus.Y myth oedd wedi eu adeiladu yn fy nychymyg i o grwp a oedd wedi canolbwyntio'n sinigaidd ar fod yn anenwog ac aneglur yn anghywir (er siom efallai).
Mae'r aelodau wirioneddol isio sylw ac eisiau creu cynnyrch proffesiynol. Mae'r agwedd yn arbennig o bositif a didwyll.
Os na welsoch chi'r mynciaid fyth yn gigio yn eich cymdeithasfan leol, peidiwch â beio ffaelrwydd eich cof, oblegid er mawr warthusrwydd i hanes diweddar yr ugeinfed ganrif yng Nghymru ond un gig mae'r Zygots erioed wedi wneud, man, a hynny yn y Feathers yn Aberaeron.
Pam, pam, pam? Fe hoffwn ofyn nifer fawr o weithiau (hyd syrffedyn fwy na thebyg).
Richard "conspiracy dosbarth canol." Methu cymryd

amhroffesiynoldeb. Ni'n blacklisted, ni wedi'n drago drwy'r shit, mae hyd yn oed Rocyn yn gwrthod chwarae ni. Mae'r rhan fwyaf o'r gigs yn Aberystwyth yn crap, ac mae bands eraill yn cael eu heipio lan.." Dwi'n credu fod yr ymosodiad cyffredinol ac anspesiffig hwn yn dangos ymdeimlad helaeth o ddicter tuag at ymateb negyddol trefnwyr et al iddyn nhw (Rwy'n siciatrydd amatur yn fy amser sbar). Crisialir hyn yn ymateb chwerw Richard "trip i'r doghouse", chwerthin gwybodus yn gefndir gan y gweddill) i'm ymholiad eiddgar a oeddynt yn ystyried mynd ar daith. Diau fod rhai o helyntion diweddar y band, sy'n cynnwys llosgi set o feiblau mewn gwesty a ddarparwyd ar eu cyfer gan Griw Byw (be' ydi o am stafelloedd gwesty, ydi'r rhyddid caeth efallai yn creu deuoli....sori, nôl at y Gorkys) ddim yn lot o help.
So pam llosgi beibils bobols? "Pass the time in the hotel, "ebe Euros. "Practising our satanic rituals," ebe Richard (now haven't I heard this before then?) "Torri penne ceilioge, goateshead blood," ebe John. Ie, ie, dyma sy'n ddisgwyliedig, bois.
"Aberthu Richard i'r duwiau," ebe Euros.
Y mae fy nghlustiau paganaidd yn meinio. Pa dduwiau ydych chi'n eu addoli te?
"Lucifer. Mark E smith, Dave Edwards."

Pa offerynnau?
"Violin, organ, gitars, dryms, lleisiau a samplo."

Pa gyffuriau? Cychwynasant gyda'r stwff arferol.
"Class A. Dim ond y gorau."

Ond yna sylweddolodd Euros anfoesoldeb fy ymhoniad ac fe honnodd gyda dicter dealladwy: "Dyw cyffuriau ddim byd i wneud â'r caneuon."
Diolch byth disgybl arall i'r Cyrff.
Roedd gwrthwynebiad arbennig gan y Gorkys i'r cliche angenrheidiol o ganu am drio cyffuriau, mynd allan o dy ben ayyb blah, blah,blah. Mae ffricrwydd y Gorkys yn llawer mwy organig.

Gan nad ydw i erioed wedi gweld y Zygots yn fyw (yn yr ystyr o ganu fel grwp ar lwyfan) roedd genna' i ddiddordeb sut fath o sioe weledol maen nhw'n gynnig. Dyma'r ateb.

"Massive sgrap, Cravos mâs...taflu tabs at y gynulleidfa...twlu ffidil rownd a neidio lan a lawr ar yr amp. Enthusiasm is the spice," oedd casgliad digon doeth Richard. Son am Cravos, pam gafodd e ei daflu mâs o'r band?

"Very deep in the human psyche."

Chawn ni byth wybod. Mae'n ymddangos bod y psycho yn ol ta beth. Oeddech chi'n deud bod conspiracy dosbarth canol yn eich herbyn chi. Pa ddosbarth cymdeithasol ydych chi te?

"Dosbarth gweithiol yn bendant, mae fy nhad yn fasdad tew yn y pyb, hasls gartre'...abiws rhywiol pan yn blentyn."
Gofynnwyd imi dorri'r cwot yma allan o'r cyfweliad, ond mae'n dangos cyd-ymdeimlad go arffwysol a phroblemau tywyllaf ein cymdeithas fodern. O ble mae'ch cerddoriaeth chi'n dod a beth yw e?

"Mae Euros yn ffeindio'r melodi a'r geiriau. Mae'r gweddill lan i jam sessions. Ni'n cyfansoddi i ni'n hunain yn bendant. Mae 40 o dapiau 'da ni gartre a jyst ni'n chwarae, sdim neb wedi clywed nhw. Mae gwd melodis 'da ni. Mae'r rhan fwya' o'r bands (eraill) yn striving for a melodi ac yn disgyn yn swp ar eu tinau. Mae egni, twrw a melodi yn bwysig."
Peiriant Pleser ,hufen neu waddod 40 o dapiau cartrefol. Does dim peryg i'r ffynnon yma fynd yn sych.
Beth oeddech chi cyn cael eich geni?

Richard: "Sperm."
Cravos: "Mul.'
John: "Beetle."

Lle fydd eich cerddoriaeth chi mewn 800 mlynedd?

Richard: "Time capsule."

Beth yw'r dyfodol?

Euros: "Big,Big,Big. Ni'n easy listening. Ni jyst mor accesible a Sobin. Ni'n bendant am gario 'mlaen (i gyfansoddi)."

A ffwrdd â nhw gan fy ngadael i synfyfyrio am ystyr mwd a beiblau colosg. Mae un hanner ohonof deud y dyle Gorkys beidio chwarae'n fyw a chadw at mystique y tapiau ond ar y llaw arall mae eu hagwedd nhw at gerddoriaeth yn iach iawn a'u dawn yn ddiamheuol. Maen nhw'n haeddu llawer o glustiau ac yn sicr ddim gan gypyrddau.

**Llywelyn ap Dafydd**

# a dolygiadau byw

## SESIWN FAWR DOLGELLA

O niwl y gorffennol daeth gŵyl, a'r ŵyl honno oedd Sesiwn Fawr Dolgellau. Bwystfilgwyliau gwerin Cymru ers stalwm, ond erbyn hyn wedi ei ddadeni ac ar ei newydd wedd. Yn mynd â'r gerddoriaeth at y bobl yn ôl y cyfryngau ac yn wir, dyna oedd yn digwydd ar sgwâr Dolgellau ac ar hyd y dref.

Yn ôl pob son mae yna lwyth o sesiwns gwerin yn digwydd yn Nolgellau yn rheolaidd ac felly mater bach oedd dod â'r holl gerddorion yma ynghŷd. Nos Wener daeth yr addewidion yn wirionedd gyda'r Stag yn gartref i un o'r sesiwns gwerin gorau imi weld ers misoedd, pwy oedd yr hogia yma? Gwych. Roedd y pybs yn rhy llawn i ddweud y gwir, mi oedd hi'n uffarn o job i gael peint. Roedd y trefnwyr erbyn hyn yn mynd o amgylch y tafarnau ac yn ceisio gwerthu crysau-T "Sumai Chaf, jest gofnyd....", "Yma am y Crac" a "Sesiwn Fawr Dolgellau" a oedd yn fendithiol o liwgar a da. Ar ôl prynu sticeri " Dwi'n Caru Sesiwn" a rhaglen dyma'r gloch-cau-bar yn canu. Dilyn y dyrfa (ac mi oedd hi yn dyrfa) i dwmpath hefo Defaid / Moniars / Gwerinos. Uffarn o laff yn gwylio neuadd orlawn chwil yn trio plethu drwy'u gilydd mewn dull hyfryd o ddawnsio gwerin. Un o uchafbwyntiau'r sesh!

Roedd y maes pebyll yn eitha' gwag a doedd yna ddim digon o arwyddion yn dangos y ffordd ond oedd yna laff rownd y tan ganol nos.

Bore wedyn roedd yna ryw griw o blant bach lleol yn dawnsio gwerin naff ac wedyn daeth Meic Stevens ("Dyma'r tro cyntaf erioed imi chwarae'n sobor!") am ddeg y bore (!) i wneud set orau ei fywyd! Mae'n debyg fod cyngerdd y plant yn orlawn (dwy sioe!!) ond mi arhosais yn y dref. Ar y llwyfan mawr gwelais i lwyth o fandiau gwerth chweil.

Roedd Steve Eaves yn ffantastig, Lovgreen yn rhesymol ddigri', Moniars yn rhyfeddol dda, Gwerinos yn creu awyrgylch, Defaid yn anthemig, Trinity yn sych a Chôr Gwerin y Gader yn erm...yyym....ia wel... Gyda bwytawyr tân, clowns, jiglars, dawnswyr aballu yn llenwi'r strydoedd drwy'r dydd.

Roedd y pybs yn llawn o sesiwns gwerin, canu, dawnsio ( a hyd yn oed sesiwns mewn rhai caffis yn y dre!)

Roedd Bob Delyn yn y Clwb Rygbi yn y nos yn hollol fendigedig. Braf gweld yr hogia'n mwynhau. Y Moniars yn y Wine Bar yn hollol wefreiddiol gyda'r hogia y tro yma ar ben y byrddau. Roedd atgyfodiad Cilmeri yn werth chweil ac yn dangos y ffordd i'r bands ifanc. Y Flatulent Hermits yn fendigedig yn yr Unicorn gyda llwyth o bobl y tu allan yn dawnsio. Sesiwn anhygoel yn y Cross Keys gyda Tudur Huws Jones yn arwain. Y Ship oedd cartref y sesiwn ganu a'r Stag?! Yn y Stag roedd dawnswyr gwerin, sesiwns gwerin, dawnswyr Morus a jyglyrs, a hyd yn oed ambell un yn adrodd penillion - blydi el!

Roedd Dolgellau yn fyw tan oriau man y bore ac roedd y maes pebyll yn byzan. Mae'n debyg bod cyngerdd hefo Robin Huw Bowen a Hin Deg wedi bod yn dda yn Neuadd Idris hefyd ond es i ddim....

Y sesiwn frecwast a barbeciw yn y clwb rygbi oedd uchafbwynt y penwythnos imi gyda'r sesiwn werin yn cynnwys aelodau o Ar Log, 4 yn y Bar, Cilmeri, Bob Delyn, Defaid a'r Moniars.

Roedd y fersiwn solo o "Ffidl Ffadl" yn para am 10 munud ac yn wych.

Dwi ar ddallt fod un arall yn cael ei threfnu ar gyfer 1993 eisioes - gret! Mae clwb gwerin wedi ei sefydlu yn Nolgellau ers yr ŵyl ac mae rhai tai bwyta wedi cyflogi telynorion llawn amser fel canlyniad i'r ŵyl. Wela' i chi'r flwyddyn nesaf. Ydi, mae'r chwyldro am ddod, ond nid tan drannoeth yfory.

**Idris Orwig**

## GERAINT JARMAN A'R CYNGANEDDWYR - Neuadd Fawr, Aberystwyth

Does 'na neb wedi creu corff mor sylweddol o waith yn Gymraeg ag y gwnaeth Geraint Jarman tros y blynyddoedd ac yn fy meddwl bach llym a beirniadol roeddwn i 'chydig yn amheus pan glywais i am y cymbac mawr yn y lle cynta'. Onid oedd ail-ffurfio hen grwpiau'n syniad retro a diffaith ac yn adlewyrchu tueddiadau gwaetha'r diwylliant pop rhyngwladol? Wedi dweud hynny mae 'na Yin a Yang ac mi oedd y prosbect o weld Jarman yn canu'n fyw eto yn un gogleisiol ac, yn wir, roedd y perfformiad yn "Rhyw Ddydd, Un Dydd" yn ddigon i chwythu'r grwpiau eraill allan o'r dŵr. Heno mae 'na ddisgwyl mawr. Hon ydi noson ola' 'Steddfod Aberystwyth ac mae'r egni'n wan a'r yumenydd yn pallu ar ôl wythnos o'r miri traddodiadol Cymraeg.

Cyrraedd yn rhy hwyr a cholli Amddiffyn. Pam bod rhaid i'r nosweithiau yma ddechrau a gorffen mor gynnar? Mi fwynheais i DOM oedd yn clownio ambiti'r stej fel anifeiliaid roc a rol cartŵn ar fin taflu'r teledu i'r pwll nofio.

Cyffyrddiadau da yn y gerddoriaeth a chyffro byw y band yn cachu ar ben sŵn tila'r casetiau. Mae hwn yn grwp hefo cymeriad er nad ydym ni, y gynulleidfa, cweit yn siwr eto be' yn union ydi'r cymeriad hwnnw.

Chwaraeodd Jarman ddetholiad eang o'i hen ganeuon o "Hen Wlad Fy Nhadau' lan at "Enka" a'r albym newydd. Cychwyn hefo "Cŵn Hela" cyn symud ymlaen i sgancio a rocio'r gynulleidfa hefo "Ethiopia Newydd", "Methu Dal y Pwysa", "Gwesty Cymru", "Rocyrs", "Rheswm i Fyw", "Rhywbeth Bach", "Yn Fy Mro, "Gweithio ar Wyneb y Graig". Wot y bac catalog!

Roedd y cyffro i'w deimlo yn y dorf wrth i gytgan anthemaidd "Ethiopia Newydd" sgubo trwy'r lle ond nath y band ddim setlo'n iawn tan i sganc bachog "Mae'r To yn Dod i Lawr" hercio o'r uchelseinyddion.

Mae'n wefr gweld Jarman yn ôl ac mae'n siwr o fod yn wefr iddo yntau hefyd. Mae'r caneuon newydd yn cael derbyniad gwresog ac yn dal eu tir yn dda yng nghanol y môr o glasuron. Deud y gwir, mae'r sŵn byw 'chydig yn fwy cyffrous ac yn llai o bwdin na'r gwaith stiwdio. Trwy'r gig yma i gyd es i'r bar unwaith a chael un peint. Fel arfer fydda' i angen y cwrw i ddioddef y band. Oes angen deud mwy?

**Lewrog**







# OES GENNYCH CHWI STORI DDA?

**YDY'CH MAM YN RHEDEG MARATHON?**

**YDY'CH NAIN YN DAL I DDAWNSIO DAWNS Y GLOCSEN?**

**YDY'CH BRAWD YN CADW BOA CONSTRICTOR?**

*RHOWCH WYBOD I*




**GRONANT, CAERNARFON**
**LL55 1NS**
**FFÔN**
**(0286) 77595**

# MANIC STREET PREACHERS

## -GO IAWN, GO WIR, GO GO GOCH

**" 'Ave you 'eard of the Manic Street Preachers. They're a Welsh punk band from Blackwood," meddai'r hogia yn y dafarn ym Merthyr wrthyf i yn llawn balchder. Anghofiwch am eich Tai Gwydr, DOMs, Beganifaid a Jesses. Y Manic Street Preachers yw'r gwir reu Cymraeg. Bu ein Gohebydd Gwrtaith yn crafu tinau di-ri' i gael cyfweliad egsgliwsif hefo Ritchie Edwards. Dyma fo. Mae hyn go wir, beibi....**

**GOHEBYDD GWRTAITH: Ydach chi'n ystyried eich hunain yn fand Cymreig?**

**RITCHIE:** "Wrth gwrs dan ni ddim."

**Ydach chi'n meddwl bod y ffaith eich bod chi'n dod o Gymru yn berthnasol i'ch miwsig?**

"Na."

**Mi ddywedoch chi'n ddiweddar nad oeddach chi am gael eich ystyried yn fand Cymreig. Mae'n ymddangos i mi na fu gan grwpiau fel U2, A House, Deacon Blue, Run Rig, Van Morrison, The Alarm erioed unrhyw broblem ynglyn â'u cefndir a'u bod yn falch ohono. Ym mha ffordd mae hyn yn berthnasol i'ch credoau chi?**

"Mae cenedlaetholdeb yn athroniaeth sydd bron mor isel â hiliaeth."

**Ydi'r iaith Gymraeg yn bwysig i chi?**

"Tydi'r iaith Gymraeg ond yn bwysig i ddeinosoriaid a phobl sy'n licio bwyta glo."

**Be dach chi'n feddwl am y sin canu cyfoes Gymraeg?**

"Don i ddim hyd yn oed yn gwybod am ei fodolaeth. Mae o mor pathetig â hynna.'

**Mae gynnon ni boster o gig yn erbyn Treth y Pen yng Nghlwb Ifor Bach lle oeddach chi'n syportio band o'r enw Tynal Tywyll. A fyddech chi'n ystyried cael band fel yr Anhrefn i'ch syportio chi ar daith?**

"Naethon ni ganslo'r gig pan glywon ni y bydden ni'n canu hefo band hefo credoau hiliol fath â Tynal Tywyll a bydden ni byth yn cael band sy'n canu mewn iaith farw yn syportio ni. Mae geiriau'n bwysig wyddoch chi."

**Yn y wasg gerddorol ym Mhrydain dach chi'n cael eich gweld fel 'those Welsh Boys' trwy'r amser. Ydi hyn yn eich gwylltio chi? Ydach chi wedi defnyddio'ch Cymreictod i hyrwyddo eich hunain?**

"Mae'r wasg gerddorol hefyd yn edrych ar y rhan fwya' o fandiau Gogledd Lloegr fel 'Northern scum'. Mi wyt ti'n dysgu delio hefo dy fan enedigol - os nad ydi dy allu meddyliol yn gyfyngedig."

**Mae rhai wedi beirniadu'ch miwsig chi am fod yn ddathliad o'r Clash neu trwy ddisgrifio'r lp fel metal meddal. Sut ydach chi'n gweld eich miwsig?**

"Top ff***n twenty."

**Beth yw ymateb America i chi?**

"Ddim yn gwybod eto."

**Mi ddywedsoch chi eich bod chi am roi'r gorau i bopeth ar ôl yr lp ddwbl gynta'. Beth yw'r cynlluniau?**

"Mi wna' i ddweud wrthoch chi ar ôl i'r cocen redeg allan.".




MANIC STREET PREACHERS

Ilun: Pennine Smith

# FFWRDD I'R FÉILE 92

## THE THIRD TRIP TO TIPP

**Dwy ŵyl y Cnapan, Sesiwn Fawr Dolgellau, dewis di-ri'r Eisteddfod. Er i'r haf droi'n dymor tanboeth go iawn yng Nghymru erbyn hyn, roedd dal rhaid i mi wasgu gŵyl arall i mewn on'd oedd? wrth i chi baratoi am wythnos ger y lli, dyna fi wedi croesi'r lli i'r Ynys Werdd ar fy ffordd i'r ŵyl roc fwya' yn Ewrop (yn ôl nhw) y FÉILE yn Thurles, Tipperary.**

Roedd y bysys (£12 rtn) o Ddulyn ddydd Gwener yn llawn o gyrff brwdfrydig a glan - ar wahân i ambell Cymro di-gwsg ar ol croesi ar gwch 4 o'r gloch y bore hwnnw.

Disgyn o'r bws awr yn ddiweddarach a dyma olygfa anhygoel - sgwâr canol tref Thurles yn fôr o bobl a sbwriel, sŵn a lliw yn ein taro ni'n fud am hanner munud wrth geisio gwneud synnwyr o'r sefyllfa. Tocynnau (£40 y penwythnos neu £20 y dydd), wedyn diod a bwyd a bant a ni i'r maes pebyll. Roedd cerdded trwy'r dorf yn broses araf - fel cerdded o flaen Parc yr Arfau cyn gêm Lloegr/Cymru ac anodd oedd peidio â cholli ffrindiau wrth fynd. Cyrraedd y maes pebyll, gyda golygfa braf o fryniau yn y pellter, cyfle i grasho mâs am dipyn.

Mae Thurles yn dref eitha' bach - yn debyg i Lambed efallai, ond oherwydd ei safle cyfleus yng nghanol gwaelod Iwerddon a gyda Tiobraid Arann (Tipperary) a Luimneach (Limerick) yn agos, mae gan Thurles stadiwm pel droed Gaelig, sef Semple Stadium. Mae agosrwydd caeau cefn gwlad i'r stadiwm yn ei gwneud hi'n gyfleus iawn i drefnu gŵyl roc fel hon. Mewn tair blynedd felly (dyma'r trydydd 'Trip to Tipp' mae'r ŵyl wedi cadarnhau ei lle fel prif ddigwyddiad calendr roc Iwerddon ac un o'r mwya' yn Ewrop. Saithdeg mil oedd y swm glywais i, digon o bobl i lenwi'r stadiwm am dair noson, ta beth. Ac mae rhestr y grwpiau'n adlewyrchiad o lwyddiant y fenter. I chi sydd newydd dalu £20 i weld Bryan Adams ac Extreme ym Mharc yr Arfau, dyma ddau grwp ymysg 13 ar nos Sul.

Brynhawn Gwener felly ac amser i fentro mâs o'n pebyll tua'r sioe. Yn unrhyw gyngerdd anferth o'r fath mae rhaid derbyn nad yw hi'n ymarferol ceisio gweld pob grwp. Felly, ar ôl oriau o gerddoriaeth golledig i ni, dyma gyrraedd y terasau ar ddiwedd set egniol Sultans of Ping FC. Ymateb da gan garfan wrth y llwyfan tan eu cân ola' pan aeth yr holl dorf yn wyllt gacwn. Rhyfedd faint o bobl oedd yn chwilio am eu siwmperi y noson honno!

Gwnaeth Carter USM sioe derbyniol ond uchafbwynt cynhara'r noson i mi oedd James. Llwyddodd eu caneuon bachog, llwyr-ddawnsiadwy i uno'r dorf a chreu awyrgylch amlwg trwy'r stadiwm. Roedd y parti wedi dechrau. Wrth i'w caneuon enwocach godi'r hwyl roedd carfanau ar y terasau'n neidio lan a lawr mewn ymateb i'r gytgan "OH SIT DOWN" ac yn amlwg wrth eu boddau. Daeth seiniau melys The Beautiful South a momentau tawelach i'r stadiwm cyn i'r waliau atseinio unwaith eto, y tro yma i egni a phŵer The Wonder Stuff.

Erbyn i Primal Scream ddechrau ar eu bit, roedd y garfan Gymreig wedi blino gormopd i ymdopi â rhagor! Doedd eu tair cân cynta' ddim yn arbennig, ond efallai fyddai eraill (mwy dihûn) yn anghytuno.

Yn ôl i'r pebyll i fwy o sŵn nac yn y stadiwm, 'wi'n siwr. Roedd y lle fel ffair - tannau yn cael eu cynnau, ffrindiau hen a newydd yn cwrdd, pobl ar goll, casetiau'n canu i'r tywyllwch. Roedd rhaid eich bod chi wedi colli noson o gwsg yn barod i gysgu trwy hyn! Ar gefn fy meddwl wrth setlo oedd "beth yw'r ystum corff gorau i fod ynddo o ran rhywun yn cwympo dros dy babell?" Nos da!

Daeth y bore a thrafodaeth ymysg pawb o'n cwmpas. Yn ystod y nos daeth lladron trwy'r ardal - aethon nhw â rycsachau (llawn) dwy ffrind wrth iddynt gysgu! Daeth un dyn yn ôl, ar goll am ddeng munud cyn cadarnhau bod ei babell wedi'i dwyn yn gyfangwbl! Y diawled. Cwmwl dros bethau, felly.

Lawr y dref dan ei sang, llwyddon ni fynd i mewn i dafarn a digon o le i ymlacio. Ac wi'n gwybod

bod pawb yn dweud hyn ond MAE Guinness yn well yn Iwerddon. Cymerodd o dipyn o waith ymchwil wrth gwrs ond mae'n ffaith. Gan i'r stadiwm gymryd tipyn o amser hefyd, dyma fi'n cyrraedd y stadiwm yn hwyrach na'r disgwyl.

Wrth gerdded yn hamddenol ymysg y dorf o flaen y llwyfan rhwng grwpiau, yn sydyn aeth y dorf yn wallgo' - roedd y Saw Doctors wedi cyrraedd. Heb glywed son amdanyn nhw o'r blaen, i gyd oni'n gallu gwneud oedd dianc o'r wasgfa llawn cyffro, a rhyfeddu wrth weld miloedd o bobl yn canu pob gair a dawnsio'n wyllt. Grwp Poguesaidd ydyn nhw, bachog a llawn hwyl. Trueni oni heb weld crysau-T Cymraeg y Sawdoctors cyn hyn!

Roedd rhediad nos Sadwrn yn arbennig. Dechreuodd set David Byrne gyda pherfformiad solo ganddo fe a'i gitâr a chyfeiliant peiriant rhythm wrth ei draed. Mae'n deyrnged i'r dyn bod cymaint o ymateb i ran yma'r perfformiad ond aeth pethau'n well byth wrth i'r llwyfan agor i ddatgelu band 10 dyn, y Ten Car Pile Up. Gyda'r adran bres a'r percussion yn pympio seiniau Lladinaidd, y tywyllwch yn gadael i'r goleuadau ychwanegu sglein i'r perfformiad a chytganau hynod o fachod Mr Byrne, doedd neb yn y stadiwm yn llonnydd na'n ddistaw...WE'RE ON THE ROAD TO NOWHERE...HEY...HEY..HEY...HEY!

Gyda chymaint o hwyl a dawn nos Wener a nos Sadwrn, daeth gwir ystyr y gair sêr i ni trwy berfformiad Shakespeares Sister. Eu set yn gryf a gwreiddiol, eu presenoldeb pŵerus ar lwyfan a'u lleisiau sy'n herio credinedd, mae'n anodd credu taw ffoaduriaid Bananarama sydd yma! Gwisgon nhw eu siwtiau llawn drychau - yn effeithiol iawn o dan y spots. Roedd eu cerddoriaeth hefyd yn sgleinio gyda'r senglau "Stay" ac "I Don't Care" yn uchafbwyntiau gwefreiddiol i'r noson.

Cerddoriaeth bleserus, melfedaidd Simply Red gauodd y noson ac aeth pawb mâs wedi'u llawn bodloni ar y wledd.

Tybed a oes pebyll ar ôl 'da ni? Aeth partion y maes pebyll ymlaen trwy'r nos fel arfer ond sylwais i ddim! Dydd Sul a'r rhediad mwyaf Gwyddelig eto yn ein aros ni. Oherwydd diffyg arian, lwyddon ni i weld mwy o'r sioe heddiw nac o'r blaen gan ddechrau gyda pherfformiad da ond di-ymateb gan Kirsty McColl. Gwnaeth Sharon Shannon fywiogi pethau gyda'i rils a sleids traddodiadol. Weithiau'n hudolus, weithiau'n achosi dawnsio ffyrnig, roedd Sharon bob tro'n hollol safonol a gyda chymeriad i doddi'ch calon. Daeth Buddy Guy a naws cwbl wahanol gyda'i solos rhythm & blues ac eto llawer o ddawnsio. Daeth y glaw ar adegau a doedd hynny ddim yn helpu i fi werthfawrogi The 4 of Us a The Stunning, dau grwp newydd i mi, ond nid i'r dorf mae'n debyg. eto, rhyfeddu i weld miloedd yn canu geiriau i ganeuon cwbl anhysbys i mi.

Roedd croeso mawr i Christy Moore ac wedyn agorodd y nefoedd go iawn! Gyda'r stadiwm yn llawn, doedd dim lle i guddio felly trodd y glaw'n achlysur i bartio'n fwy gwyllt fyth. Rhwygodd pobl y tarpaulin o'r llawr i sefyll o dan y darnau anferth fel ffurfiadau rhyfelwyr Rhufeinig. Parodd eraill gyda'r gystadleuaeth adeiladu pyramid a oedd wedi datblygu dros yr ŵyl i gyd sef cael hanner dwsin o ffrindiau i sefyll ar ysgwyddau eraill a thrio cael trydydd lefel i'r pyramid. Y dorf yn gweiddi i bob grwp llwyddiannus. Trwy'r cyffro a'r glaw llwyddodd Christy Moore i ddenu sylw ac ymateb cryf a chanodd lawer ymlaen a'r repertoire anthemaidd, bron, sydd gyda fe. Gyda'r awyrgylch partiaidd wedi bod yn cynyddu trwy'r penwythnos, un elfen allweddol yn y broses (ar ben natur y Gwyddelod eu hunain) oedd y sgrin anferth wrth ochr y llwyfan. Ar hynny rhwng y grwpiau, roedd fideos, cyfweliadau, hysbysebion ac ati gyda'r ymateb rhyfedda' pob tro daeth tant cynta' "20th Century Boy" gan T Rex neu "My Gang" gan G Glitter ac yn arbennig can y tîm peldroed cenedlaethol! Hollo wallgo'! Yr holl stadiwm yn canu. Un o brif atyniadau'r sgrin oedd y dorf ei hunan. Fyddai dyn camera yn crwydro'n ffilmio'r dorf yn dawnsio, cysgu, labsuchan ac ati, casglu nhw at eu gilydd a'u dangos i gyfeiliant cân. Roedd y canlyniad yn hwyl tu hwnt gyda 40,000 neu fwy yn gwylio momentwm preifat a diniwed unigolion. Ai chi sy'n nesa' ar y sgrin? Plis na!

Uchafbwynt y noson ola' i mi ddaeth gyda seiniau eithafol (!) Extreme Metal go iawn mewn cyngerdd pop. Cyferbyniad llwyddiannus yn cynnig ysgytwad i'r enaid ar ddiwedd tridiau caled i'r corff. Cyferbyniad tu fewn i'r set wedyn gyda'r anthem "Words" a'r anochel leiters-yn-yr-awyr yn effeithiol os yn corny. Goleuadau mor fflach a'r solars, gwych.

Set fywiog a phroffesiynol gan B Adams er bod dim byd yn gofiadwy iawn, a dyna ni ddiwedd penwythnos gwahanol iawn, pleserus a phoenus, profiad bythgofiadwy yn sicr. Nawr 'te, ble mae'r Eisteddfod?

*** Costau £40-£50 rtn ar y fferi. £12 bws Dulyn-Thurles rtn. £40 tocyn cyngerdd (neu £20 y dydd = tua £100.**

*** Gofalwch rhag lladron. Mae'n debyg taw pobl tu fâs i'r cyngerdd sy'n manteisio, nid y pyntars yno.**

*** Roedd croeso agored a di-ffuant y Gwyddelod yn atyniad ynddo'i hun. Diolch i chi. Gobeithio bydd problem y lladron yn cael ei datrys.**

*** Byddwch yn barod am y ciws hir am ddŵr neu anghofiwch am lendid. Defnyddiwch dai bach y dre neu'r stadiwm - nid y maes pebyll!**

*** Er nad oedd yr heddlu yn amlwg, doedd dim son am gyffuriau - neb yn gwerthu a dim aroglau melys y mwg drwg. Cafodd un Cymro ei garcharu am feddiant.**

*** Cafodd un ffrind ei rycsach yn ol gan yr heddlu. Ro'n nhw wedi dal y boi hefyd. Tybed a yw crogi'n gyfreithlon yn Iwerddon?**

**Aman**

# HEI BEIBI, CYT Y BYG! ARALL

**Un arall yn ein cyfres o archwiliadau seicolegol dwys i yumennyddau eich hoff sêr pop. Y tro yma - DAFYDD IWAN, CYM ON DOWN!!!**

**Y record diwetha' i ti brynu**

O'r Gad

**Hoffi glaw**

Ydw

**Lle wyt ti a pham**

Sain, yn gweithio

**Pryd fuost ti'n feddw ddiwetha'**

Meddw? Fi?

**Pam mae eira'n wyn**

Pam wyt ti'n gofyn?

**Cawl tun, cawl paced, lobsgows cartre'**

Lobsgows, neu gwell fyth, cawl cartre'

**Gig cyntaf**


Band of Hope, Gilsea, Brynaman

**Y pella' i ti ffawdheglu/bodio erioed**

Caerdydd, o Lanuwchllyn

**Enwch dri clasur o gân**

"Hi Yw Fy Ffrind" - Ems
"Gwyddel yn y Dre" - Bob Delyn
"Mor o Gariad" - Meic Stevens



DAFYDD IWAN — llun: Dewi Wyn

**Un band fydd yn fawr y flwyddyn nesa' (Cymraeg neu Saesneg)**

DI a'r Band (Cymraeg)

**Y peth diwetha' i ti ddwyn**

Sebon Trust House Forte

**Wyt ti'n ffrind i Superted**

Ddim felly

**Lliw sanau**

Amryw

**Cymru'n rhydd ryw ddydd**

?

**Caffi gorau Cymru**

Yr Ardd, Bangor

**Pwy ddylai fod yn sgwennu yn "Sothach"**

Y darllenwyr

**Fedri di newid plwg**

Medra'

**Llaeth ynteu lefrith**

Y ddau

**Ffordd gyflymaf o Gaerdydd i Gaergybi**

Dim efo tren

**Beth yw dy arwyddair**

Does gen i 'run

**Y peth diwetha' i ti brynu o gatalog**

Dim syniad

**Person enwoca' i chi siarad â nhw**

Arglwydd Elis Tomos o Nant Conwy

**Esbonia i Sais beth yw cerdd dant**

Penillion singing

**Enwa dri grwp perthnasol**

Perthnasol?

**Pa hysbyseb teledu wyt ti'n ei gasau**

Yr un sy'n torri ar draws rhaglen berthnasol

**Punchline dy hoff joc**

Arglwydd Elis Tomos o Nant Conwy

**Pa ddiod sy'n gwneud i ti deimlo orau**

Te Earl Grey gyda lemwn

**Pwy sy'n well na'r Anhrefn**

DI a'r Band

**Record mwya' dylanwadol erioed**

Dim syniad

**Y llyfr da diwetha' i ti ddarllen**

'Heaven's Command' - James Morris

# aDOLYGiADAU

**DAVID GREENSLADE**
**"Burning Down The Dosbarth"**
**(Cyfres Beirdd Answyddogol y Lolfa)**


Mae culni'r testun yn wendid ac yn rym yng nghyfrol David Greenslade. Ar un ystyr mae'r dilyniant o gerddi paranoiaidd ac eithafol am yr iaith Gymraeg a deffroad gwleidyddol yr awdur wrth ei dysgu yn bwnc digon cyfyng ond dyna sy'n rhoi grym i'r cerddi ac yn gwneud y gyfrol yn arbennig. Dwi ddim yn meddwl y byddai'n bosib mynegi'r fath deimladau mewn cyfrol Gymraeg. Mae'r obsesiwn yma hefo'r iaith yn wahanol iawn i be ti'n gael gan feirdd Cymraeg eu hiaith yn rhaffu ystrydebau am gadw'r winllan yn lan neu gadw'r ffynnon rhag y bwystfil neu'n mynd ymlaen am hen gymeriadau cefn gwlad. Mae ffieidd-dra sefyllfa'r Cymry yn cael ei fynegi'n glir mewn cerddi fel "Application":

"Excuse me
I know this is weird
you'll think I'm being
totally bizarre
but well you know
it's like this
if it's all right
with you that is if
you don't mind
as long as I'm reasonable
I know i'm crazy
outrageous intolerable"

hyd at y diweddglo:

"if you grant
that I could make a
reasonable
application conforming (of
course)
to *The Guidelines*
that when I come in
I might (forgive me)
perhaps via
an approved interpreter
venture to speak to you
in IT."

Yr IT yma wrth gwrs ydi'r iaith Gymraeg ac mae'r awdur yn cyfeirio ati fel hyn trwy'r gyfrol i gyd. Mae cynddaredd yr awdur i'w deimlo'n gryf yma ac yntau'n mentro gwneud defnydd o'r iaith wrth ei dysgu




ac yn cael cic (ffigurol) yn ei ben pob tro.

Mae "Life Support" wedyn yn son am ddileu pob grant diwylliannol Cymraeg ac yn gwneud i rywun feddwl pa mor erchyll o noddedig ydi pob dim Cymraeg:

"Switch off the machines
it's time
to watch IT die
this subsidy shit has gone on
long enough"

Geiriau eithafol sy'n creu ias o ofn wrth ddarllen ymhellach ac mae'r diweddglo'n rymus:

"after that there's only
one thing left to do
cheer them up
they've got a word for
sadness
and if you don't know it
you've got no business
in the killing trade
give them everything they
need
until they change
the way it is right now
these people
are too miserable to die."

Dywedodd rhyw wag yn uchelfannau'r Cyngor Llyfrau bod yma ddim mwy na rhaffu geiriau rhyddieithol ond mae llymder y mynegiant a'r teimladau eithafol sy'n corddi'r bardd yn gofyn am steil di-lol i ysgwyd y darllenydd.

Roedd hi'n hen bryd cael rhywbeth i roi cic yn nhin ein llenyddiaeth farwaidd (boed yn Gymraeg neu yn Saesneg). Pryd oedd y tro diwethaf i chi fedru darllen ymhellach na thudalen gynta' unrhyw gyfrol Gymraeg? Eleni dan ni eisioes wedi cael "Burning Down The Dosbarth", "AI, Mae'n Urdd Kamp" a "Seren Wen Ar Gefndir Gwyn".

**Lewrog**

**ROBIN LLYWELYN**
**"Seren Wen Ar Gefndir Gwyn"**
**(Cyfrol y Fedal Ryddiaith 'Steddfod Aber '92)**

**MARION EAMES**
**"Y Ferch Dawel"**
**(Gomer)**


**ALUN JONES**
**"Simdde yn y Gwyll"**
**(Gomer)**


Darllenwyd y tair nofel ar Ynys Enlli, pwynt amherthnasol efallai ond un sy'n pwysleisio y canolbwyntio rhyfeddol fu ar gynnwys y tair nofel. Mae'r tair, o'u hystyried hefo'u gilydd, yn rhoi pictiwr cynhwysfawr o gyhoeddiadau gwahanol. Mae nofel Marion Eames yn stori syml mewn ieithwedd syml, nofel Alun Jones yn gymhleth hefo ieithwedd ddramatig "glyfar" a nofel Robin Llywelyn yn gymysgedd o'r ddau beth. Mae'n rhaid cyfaddef mai gorfod brwydro drwy nofel Marion Eames ac Alun Jones ddaru fi. Mae "Simdde yn y Gwyll" yn ddramatig ac yn llawn o ddeialog ystyrlawn ac affwysol yn dilyn perthynas llosgach rhwng brawd a chwaer. Mae rhai darnau'n cyffwrdd, yn arbennig y

# ADOLYGIADAU

disgrifiad o'r ddau ar y traeth, ond mae'r plot, sy'n cynnwys stampiau coll gwerthfawr o Norwy, yn rhy annhebygol.
Mae'n rhaid cyfaddef bod disgwyl i'r ddau brif gymeriad ddelio â hysbysu'r teulu o'u perthynas rywiol ag ymdopi â 'thriller' ryngwladol James Bondaidd yn ormod braidd!
Nid yw'r tensiwn rhywiol yn ddigonol er bod y ddau gymeriad yn hŷn ac yn adnabod eu teimladau eisioes. Gellid gwneud beirniadaeth debyg am "Y Ferch Dawel". Mae'r diffyg tensiwn, sy'n deillio o'r cymeriadau gwan a'r plot sy'n hawdd ei broffwydo, wedi creu nofel anodd ei chymryd o ddifri'. Er ei bod hi'nrhagori ar "Simdde yn y Gwyll' yn ei symlrwydd.
I gymharu â'r ddwy nofel yma mae "Seren Wen Ar Gefndir Gwyn" yn ddios mewn cae arall. Yr hyn sy'n taro rhywun yn syth am y nofel hon yw ei bod hi'n aeddfed ymhob ffordd o ran mynegiant, parch at y darllenydd a rhyddid oddi wrth ffiniau llethol y nofel 'glasurol'. Wedi'r holl ganmol yn ddiau roedd ychydig o siom o ddarllen y cynnwys. Roedd y diffygion yn cynnwys gorbentyrru enwau gwahanol, diffyg disgrifiadol ee gosod delweddau ar sefyllfaoedd ac anghysondeb yng nghryfder y dychymyg yn arbennig tua'r diwedd a dyw'r ychydig dudalenau cynta' ddim yn arwain y darllenydd yn esmwyth i'r chwedl a bydd hyn yn rhwystr i nifer fawr o ddarllenwyr. Ond roedd safon y chwedl ar ei gorau,yn arbennig yn hanner cynta'r nofel,yn wych iawn ac yn rhoi digon o bleser i'r darllennydd i gario'r stori yn llyfn. Mae'r diwedd hanner lleddf yn hynod effeithiol.
Yr hyn fu'n ddiddorol am y feirniadaeth ar y nofel oedd y pwyslais ar ei gwreiddioldeb. Gallai'r darllennydd sinigaidd ddweud nad oes yma dim byd gwreiddiol oni ddarllenais y cyfan eisioes yn Tolkien a'r Mabinogi ayb. Fe fyddai'r darllenydd yn gytwir ac yn anghywir. Y ffaith nad yw'r nofel yn wreiddiol ond yn hytrach wedi ei gwreiddio mewn traddodiad ydi cryfder mawr y sgwennu. Hefo'r "Pla" ac yn awr "Seren Wen Ar Gefndir Gwyn" mae gennym ail-gynnau arbennig o gyffrous o fynegiant 'Cymreig' sy'n rhagori o beth fil ar y nofelau a fu ac yn adlewyrchu'n gywir liw ac ehangder profiad bywyd gwirioneddol. Y gallu i ddweud stori sy'n creu chwedl dda, sylwer ar Jeffrey Archer, ac awgrymaf mwy o symlrwydd yn y dyfodol heb golli'r prydferthwch hiraethus sydd mewn manylu ar y pethau bychain.
Gobeithio y bydd gwaith cyffrous Robin Llywelyn yn ysgogi miloedd o bobl i fynd nôl at eu llyfrau plant a fframio mynegiant eu profiadau yn yr un dull a meddylfryd.
Gyda llaw nid yw'n angenrheidiol i seren wen fod yn anweledig ar gefndir gwyn.

**Llywelyn Llyfrbryf**




**TY GWYDR "Reu (Mics)" (ANKST)**


Ym mis Awst 1991 fe ysgrifennais "Dyma gaset y flwyddyn hyd yn hyn, heb os nag onibai!" Y caset dan sylw oedd "Effithiol". Ym 1992 mi ddyweda' i mai dyma gaset y flwyddyn hyd yn hyn , heb os nag onibai!
Cefais fy siomi gan y 'meisterwerk' rhwng TG, Ll Ll a DRE yn gynharach eleni ond mae "Reu (Mics)" yn gwneud iawn am hynny.
Dyma gasgliad o wyth trac a fydd yn peri i chi ddawnsio i ddiwedd y bydysawd.
Daeth "Reu" i'r golwg gyntaf ar y sengl label gwyn ym mis Awst 1991 ac mae wedi ei atgyfodi ar ei newydd wedd ar y caset yma. Yn ôl y blyrb a ddaeth gyda'r sengl label gwyn "Reu" yw prif drac y sengl, naws rave-aidd wrth i'r Tŷ golli rheolaeth ar y peiriannau a dawnsio tan yr

# aDOLYGiADAU


oriau man..." Beth bynnag wnewch chi peidiwch â gadael iddynt ddawnsio ar ben eu hunain.
Does dim seibiant cyn cychwyn "127 Cicio", cerddoriaeth techno ar ei orau - "Energise!" Mae'n hawdd clywed sut mae TG wedi datblygu ers "Effeithiol" i gynhyrchu sain sydd, nid yn unig gystal ag, ond yn well nag unrhyw beth ar gasgliadau fel Kaos Theory. Yr esiampl orau yw "Anwaraidd" - sy'n rêf - ym ... serious. Mae "Anwaraidd" yn glasur arall gan TG sy'n sefyll ochr yn ochr gyda "Colli Iaith", "Gormod o Ffwdan" a phob trac arall gan y Dogfield Posse!
I orffen ochr gyntaf y caset cawn "Welsh Ragamuffin" sy'n sicrhau ein bod yn dal i Reuf On ac i Mwf Ior Bodi, o leiaf tan i chi chwarae ochr dau sy'n agor gyda, wait for it, "Reu".
Dyma'r "Reu" mwy adnabyddus o'r sengl a sonnir amdani uchod, yn hytrach na "Reu (Akira)" sy'n agor y casgliad. Wedi'ch drysu? Peidiwch â phoeni, jyst gadewch i seiniau TG lifo drostoch.
Hanes y terfysg yn Nhrelai, Caerdydd ym 1991 sy'n cael ei amlygu yn y gân, "Trelai" gan samplo pigion o eiriau newyddion Cymraeg yr adeg honno. Ymlaen wedyn i fersiwn newydd o gân a ymddangosodd ar y caset gyda Ll Ll a DRE, sf "Db i Ddiwedd y Bydysawd". I gloi'r casgliad cawn "Mics Pont o "Anwaraidd" - ardderchog. Mae dyfodol disglair iawn i TG, yn enwedig os gallent barhau i gynhyrchu caneuon o'r safon yma. Os ydi The Orb yn gallu cael sengl 40 munud i fewn i ddeg ucha'r siartiau, gall TG fod yn Dogfield Massive led led y byd. Wel, gallwn freuddwydio!

**Dyfan Wyn Owen**

**JINA**
**"Dwylo"**
**(ANKST)**




"Cyflwynir 'Dwylo' i bob nymphomaniac yng Nghymru." Dyna ffordd ddewr o agor casgliad o ganeuon



gan y band o Fethesda. Pwy biau'r coesau 'ta?!? Tydi Jina ddim yn medru ailwneud y sŵn yma ar lwyfan. Profwyd hynny eisioes gan y ffaith nad ydyn nhw'n rhy hapus yn gigio (neu o leia', prin iawn yw'r gigs), a phan ddaw'r cyfle prin i'w clywed does dim llawer o ystyr.
Ond mae'r tâp yma yn fater gwahanol. Wedi gadael label Fflach am Crai a wedyn yn gwneud tâp o 6 cân yn unig, efallai bod Jina wedi darganfod eu cartref ysbrydol. 'dwn 'im. Mae'r caneuon yn rhywiol, yn yr un 'mould' â rhywun fel Madonna, "Rho dy ddwylo lle mae hi'n gynnes iawn, efallai y cei di wen....Cyn iti dynnu dy drowsus...." Rhyw ffeministiaeth ddeheuol. Mae'r sŵn yn ffynci yn nhraddodiad Jina ar eu gorau, gyda'r ddawn leisiol yn hen ddiystyru y feibs offerynnol.
I ddweud y gwir fe bwysleisir y dalent leisiol ar y gân orau ar y caset, "Be' sy'n Mynd Ymlaen" sydd yn wirioneddol ffantastig. Un o'r caneuon gorau welwyd o ardal Bethesda erioed. Mae'r holl sŵn yn syfrdanol ac yn creu golwg newŷdd ar Jina. Gwych, kids!
Tydi'r ail ochr ddim chwarter cystal â'r hanner cyntaf. Mae'r caneuon yn fwy ystrydebol eu sŵn ac mae llawer iawn llai o her yma. "Beth Sy'n Newydd' meddai Jackie, ac o'r ail ochr yma ddwedwn i - "dim". Efalla ifod "Ar y Daith" yn uchelhau, barn. Trueni, achos mi wnewch bethau llawer gwirionach na phrynu hwn, dwi'n dueddol o wrando ar ganu amrwd noeth ochr un, a pwyso 'rewind'. Mae hon ar y llwybr iawn. Bydd y nesaf yn glasur.

**Mr Wah**

# aDOLYGiADAU

## STEVE EAVES A'I DRIAWD "Croendenau" (ANKST)

Yn fendithiol efallai cafodd Steve Eaves a'i Driawd ei alw'n dywysog rocaidd y flwyddyn ddiwetha' ar ôl ei bencampwaith Lou Reedaidd, "Ŵyn Bach Iesu Grist", ac efallai mai arwydd o'i hyder fel cyfansoddwr ydyw nad oes yr un gân ar y CD yma sydd unrhywbeth tebyg i "Sweet Jane" neu "Walk On the Wild Side". Nid fod Steve Eaves o bawb angen cael ei gymharu a phopstars Seisnig. Mae ganddo ei ddelwedd ei hun gyda'i ganeuon araf hyfryd Meic Stevensaidd a'i ganu felan di-ail, a'i roc a rol cryf. I ddweud y gwir mae casgliad o recordiau Steve Eaves yn angenrheidiol.

Dyw'r CD yma yn ddim gwahanol. Go iawn! Gyda'r darluniau cyfoes gwych ar y clawr sy'n cynnwys yr holl eiriau - os oes unrhyw gerddor yng Nghymru yn haeddu hyn, Steve Eaves ydyw - mae "Croendenau" yn addo bod yn un o'r CDs gorau erioed yn y Gymraeg.

Mae'r holl ganeuon yn araf eu naws gyda'r pwyslais yn fwy ar "Gymylau Mewn Coffi" nag ar "Cocaine". Mae ambell gân yn wirioneddol dal y dagrau yng nghongl y llygaid, yn anffodus dyw "Tywydd Garw" ddim yn un o'r rhain ac mae'n ddechrau gwael i gasgliad clodwiw. Mae "Sanctaidd i Mi' yn ysbrydoledig gyda'r naws yn cael ei greu yn fytholwyrdd. Daw "Hanner Can Milltir Wedi Hanner Nos" a fflach o weledigaeth gysglyd gyda'i eiriau sobri:

"Dan ni'n mynd i rywle
Dan ni'n mynd i nunlle" yn tybed ydw i'n ddigon del?
Ydw i'n ddigon da?
Wneith pobl chwerthin am fy mhen i
os tria' i wneud hynna?




dweud y cyfan am anobaith y bardd. Mae "Rhai Pobl" yn berffaith wych yn ei feirniadaeth a'i arsylw ar bobl groendenau:

"Rhai genod maen nhw mor ansicr
Dwi'n sicr o fethu pob dim...."

Mae sacsaffon Dafydd Dafis yn hollol deimladwy ac fe'i cawn yn hollol ddifai i gloi y casgliad ar yr epig glasurol, "Grymoedd Anweledig". Rhyfeddol.




Hwn yw'r CD y mae Steve Eaves wedi bygwth ei wneud ers tro ac wedi hanner gwneud. Y tro hwn mae'r holl gasgliad yn ddifai. Clasur. Gwrandewch, mwynhewch.

**Y Ddafad Golledig**

## AMRYWIOL "Gorau Gwerin" (Sain)

Golwg eang ar ganu gwerin Cymraeg y 70au a'r 80au a geir yn y casgliad hwn. Cesglir y rhan helaeth o'r traciau o'r gyfres o recordiau, "The Best of Welsh Folk", sydd hefyd ar label Sain. Ymysg y 22 trac mae croesdoriad ardderchog o steiliau canu gwerin Cymraeg sy'n rhoi traciau traddodiadol a gwreiddiol ysgwydd yn ysgwydd. Oherwydd y cymysgedd hyn mae'n ddigon posib na fydd pob trac yn apelio - dyma'r union deimlad a gefais i wrth wrando arno. Fy ffefrynau i yw Ar Log - "Gŵr a'i Farch", Meic Stevens - "Mor o Gariad", Cilmeri - "Llancesau Trefaldwyn", Yr Hwntws - ""Bachgen Bach o Dincar", Calennig - "Ymdaith Milwr Mwnc", "Aberjaber - "Machynlleth", Cilmeri - "Mantell Sian", 4 yn y Bar - "Gwrachod Llanddona" a'r clasur gan Dafydd Iwan ac Ar Log, "Yma o Hyd".


Ceir 13 o draciau offerynnol yn y casgliad a'r gweddill a lleisiau. Siawns na fyddai pawb yn gallu dewis rhywbeth i'w diddanu o'r casgliad 72 munud - mae o'n werth ei gael dim ond am "Yma o Hyd".

**Dyfan Wyn Owen**


# ADOLYGIADAU

## EIRIN PERYGLUS
## "Noeth"
## (OFN)

EP gan EP? Na! O.K. hen joc wael, ond hwnna oedd yr adolygiad cyntaf un imi erioed ei sgwennu yng ngholofnau trymion "Sothach".Cam gwaethaf "Sothach" erioed meddai rhai? Wel, twll eich tinau chi meddwn i. Ond y pwynt ydi, roedd EP newydd ryddhau record 4 can oedd yn fendigedig ac yn haeddu cystadlu a siartiau Prydain Fawr, ond yn anffodus heb yr heip, y 'freebies' a'r cyfweliad yn NME..... Ar ôl y cam mawr yn ôl gafwyd wrth ail-recordio "Merthyr" ayyb mae "Noeth" wedi ail-ddiffinio Eirin Peryglus.
Drwy alaw ddawns goeth "Noeth" daw'r awyrgylch drydanol hyfrytaf a gafwyd ers blynyddoedd gyda moroedd yn cymysgu'n braf a dawn technoleg yr hogia. Mae "Angerdd" yn bopeth y breuddwydioch y gallasai EP fod ac yn fwy. Mae'r rhythm cryf caled hypnotig yma, y synths tonnol, y gitar cras a'r llais hudolus araf diog dirwystr braf. Roedd hi'n hen bryd i EP wneud LP a hir fu'r ymaros, a gwych yw'r canlyniad.
Caneuon da, gwrandawadwy, canadwy, gwell hyd yn oed na Beganifs.
Yn cofleidio cariadon serchus gwlad y ddawns daw "Anial Dir" â ni at realaeth cerddoriaeth. Mae'r hanfod yma i gychwyn a dim ond un synth yn melltio cordiau bâs cryf ynghyd ag un llais ystyrlon. "Dim ond ysbrydion sydd yma nawr." Tybed ai Eirin Peryglus yw unig arwyr dawns go iawn-go iawn-go iawn Cymru? CD cyfan o




glasuron dawnsiadwy y medr pawb wrando arno.
Mae'r clawr yn lysh gyda'r holl ddyfyniadau. Ffantastig. "It's a




rude question I know. but I must ask: Is it the right time of the month?"
Ein lluniaeth a'n llawenydd.
Amen.

**Y Ddafad Golledig**

## Y CYRFF
## "Mae Ddoe yn Ddoe"
## (ANKST)

Y Cyrff, gyfeillion, oedd y band oedd yn medru ysgrifennu caneuon oedd yn hedfan weithiau yn uwch na'r sêr. Yma ar ddarn bach o fetel gloyw fe saif rhai o'r munudau pwysicaf hynny am byth (neu o leiaf y 70 mlynedd nes bod y CD angen ei ail-feistrioli). Testun sgwrs yw ai Iestyn George oedd y boi i sgwennu'r blyrb, ond mae Sciavone yn wych. Mae yma gasgliad amrywiol iawn, o'r sŵn cras sicr ganol yr 80au hyd "Mewn Plu", y gan olaf iddynt recordio yn 1992.
Dwi ddim am fanylu ar bob cân, cymerwch fy ngair i, maen nhw'n dda, dwi ddim am ail-adrodd yr ystrydeb gwir: "Y grwp roc Cymraeg erioed." Wna' i fyth anghofio mynd i weld Y Cyrff droeon yn 1987 ac wedyn. Wna' i fyth anghofio'r mini lp wych ddaeth allan a'r "Testament Newydd" yn berthnasol i bawb o'r diwedd. Wna' i fyth anghofio'r teimlad gwefreiddiol hwnnw pan glywes i'r holl ganeuon oedd yn troelli o amgylch Cymru, Lloegr a Llanrwst. Yn wir mae popeth bron yma yn arbennig i'n codi yn uwch na'r lloer, er mai dim ond pedair cân a geir oddi ar yr lp anfarwol, "Llawenydd Heb Ddiwedd". Ta waeth. Mae "Mewn Plu", unig gân newydd y CD, yn ysbrydol uchel, yn ein gadael yn orfoleddus. Sanctaidd. Piwc.
Wyddoch chi'r teimlad hynny sy'n ysgytwol wefreiddiol sydd yn eich gadael yn wan yn ysbrydol ar ôl gorffen darllen llyfr hir trawiadol?
Gwrandewch ar yr epic: "Weithiau/Anadl".
Follow that.

**Y Ddafad Golledig**

# Annwyl Sothach! . . . . . . . . . . . .

Annwyl Sothach,
Er fy mod i yn mwynhau darllen 'Sothach' yn fisol mae'n gas gen i yrru mewn i gwyno. Mae safon yr ysgrifennu yn dda, mae'r lluniau a'r safon yn dda ac mae'r holl gysodi yn wych....Ond!!
Dwi'n casau llith y Ddafad Golledig. Mae ei farn negyddol yn ffiaidd gennyf, ni ddarllenais i ddim byd mwy unochrog a rhagfarnllyd erioed. Mae ei "ddawn" (?!) ysgrifennu yn gyfoglyd o naif ac yn nawddoglyd ag a dweud y lleiaf. Rwyf yn galw yn gyhoeddus am i "Sothach" ddatgan ar goedd pwy yw y bwystfil beiblaidd yma ac y dylid ei ddiswyddo. Os na ddigwydd hyn o fewn y mis rwyf am ddiddymu fy nhanysgrifiad,
Yr eiddoch yn gywir, Sean O'Larghye.

***Diddyma fo 'ta'r basdad.***

Annwyl Sothach,
Rwyf fi yn disgybl 13 oed yn Ysgol Llanandras ac fe hoffaf ddweud fy mod yn meddwl bod "Sothach" yn shit. Nid oes byth son am rwpiau rwyf yn eu hoffi a rhai weithiau pan rwyf yn darllen e rwy'n teimlo'n trist bod mai dim Jess sydd ynddo. Rwyf credu bod syniad i rhoi ffordd osgoi i Bethesda yn ofnadwy, gyda llaw,
Jen Edwards, Y Rheithordy, Y Gelli Gandryll, Powys.

***O ddrwg i waeth....***

Annwyl Sothach,
Swni'n licio deud fod gan y cylchgrawn 'Sothach!' deimlad 'chydig yn working class. Cynnyrch cyfalafiaeth ffasgaidd diddostur yr ugeinfed ganrif oedd y dosbarth gweithiol ac ni ddylid ei fawrygu mewn unrhyw ffordd,
S. Lewis (gynt o Wallasey).

***Nos da, Saunders.***

Annwyl "Y Logo Seicadelig Newydd",
Ga' i ddefnyddio darn bach o'ch cylchgrawn bendigedig i rybuddio eich darllenwyr am y rhaglen beryglus o 'mind numbing' yna ar $4C, sef "Potsh!", gyda'r "esgus gwael am beached whale" o gyflwynydd - Gary Slaymaker. Syniad Agenda o deledu da yw sticio grwp pop gweddol enwog yn y stiwdio yn ei stiwdio fach yn Abertawe, i feimio i unig gân "adnabyddus" y grwp, dim ots pa mor hen yw'r gân.Yna 'sdim ond rhaid panio y camerau rownd yn ddiamcan a copi gwael o "Star Test" i fewn ac adolygiadau gemau fideo,a dyna chi! Rhaglen wael arall i lenwi oriau hir yr haf ar $4C. Da chi ddarllenwyr, gwnewch rhywbeth defnyddiol o 7.15 i 8.00 - glanhewch eich 'stafell, torrwch y lawnt, darllenwch hen gopiau o "Sothach", rhywbeth heblaw gwylio y rwtsh yma.
Tata tan toc, Y Sbei Slei, "Hollywood".

***Cerwch am dro, cerwch am beint, dysgwch gord newydd, unrhywbeth ond y dross amherthnasol 'ma.***

Annwyl Breian,
Hoffwn fanteisio ar y cyfle i drosglwyddo drwy gyfrwng eich colofnau godidog y newyddion da ynglŷn â thim ieuenctid saith pob ochr Llanandras Unedig. Mae safon y cyd-chwarae yng nghanol y cae a'r set pieces fel y'i gelwir trwodd i foethusrwydd bendigedig y stafelloedd newid a'r terasau yn wych. Os ydych am ddilyn hynt a helynt eich arwyr pob wythnos beth am danysgrifio i NEN, y gwasanaeth teledu peldroed gwaetha' erioed yn hanes y gêm. Serious, serious, mae o'n wael ,ynde.
Yn gywir, Y Cyrnol TJ Bibonwy Jones, Llanandras.

***Sgrialodd Giggs ar draws y cae gan adael amddiffynwyr direfedi ar ei ôl yn ffwndro yn y llaid. Anelodd ergyd winias am y pyst ac er i Trouttman wingo megis llewpart plastig i'w rwystro fe ffrwydrodd y bêl i gornel y rhwyd. Mae hi mewn...!!!!!***

Annwyl Fynach,
Rwy'n 23 oed ac fe ddeuthum yn ôl yn ddiweddar o Ynys Enlli ar ol cael gwyliau bendigedig yno. Bob blwyddyn mae criw lleiafrifol o Gymry Cymraeg eu hiaith yn ymweld â thalpyn o bridd ar graig yn y môr rhwng Pen Llyn ac Iwerddon o'r enw Ynys Enlli. Yn anffodus ychydig iawn o Gymry sy'n ymweld â'r lle o gymharu a'r mwyafrif llethol sydd o dras gwahanol ac mae lot o'r rheiniyn ffyliaid crefyddol neu'n weirdos afiach. 'Swn i'n licio annog mwy o Gymry iach eu meddyliau i ymweld â'r hafan hon. Cysylltwch â Dafydd Tomos ar 0766 522 239 am fwy o fanylion. Yn gywir, Clynnog Swnt, Paradwys, Ynys Môn.

***Dŵr, dŵr a mwy o ddŵr....***

**Anfonwch unrhyw lith neu farn i'r cyfeiriad isod:**
**Annwyl Sothach!**
**8 Rhes Victoria**
**Bethesda**
**Gwynedd LL57 3AG**

# CATALOG ROC CYTGORD

# CATALOG ROC CYTGORD

AIL GYFNOD - **NUANCE 12"** £4.45 (R) (E.P.)
- **ISOMERIG** £2.55 (C)

AIL SYMUDIAD - **RHY FYR I FOD YN JOCI** £5.10 (C)

ALAN GINSBERG - **CEGIN SARON** £4.99 (c)

AMLGYFRANNOG - **BYW YN BRAF YN GIBRALTAR** £4.80 (C)
- **DYMA'R RYSAIT** £2.05 (EP)
- **GWYRDD** £4.70 (C)
- **PWY FYDD YMA MEWN CAN MLYNEDD** £3.60 (C)
- **PENROC 1** £5.10 (C)
- **MERCHED YN BENNAF** £5.65 (C)
- **HEN WLAD FY NHADAU** £6.10 (C)
- **HEI! MR DJ** £6.65(C) £10.65 (CD)
- **TORRI'R SGRIN** £1.55 (C)
- **O'R GAD** (C) £6.99
- **O'R GAD** (CD) £10.50

ANHREFN - **SOFT LIGHTS & LOUD GITARS** £4.85 (LP)
- **BE NESA 89 7"** £2.05 (S)
- **DEFAID SKATEBOARDS A WELLIES** £4.85 (L.P.)
- **BWRW CWRW** £4.85 (L.P.)
- **BWTLEG POWERHAUS** £3.05 (R)

BEGANIFS - **LLYGAID GWYDR** £4.10 (C)
- **FFRAETH** £6.10 (C)

BOL - **BOL NADOLIG** £2.55 (C)
- **YN EICH GWYNEB** £2.05 (C)
- **BOL** £2.05 (C)

BRODYR - **CYMYNRODD** £6.15 (C)

BYD AFIACH - **BOBS NARSISYS YUM, YUM, YUM** £3.70 (C)
- **SLOTH** £2.85 (C)
- **FINE FIGURE OF A MAN** £2.75 (C)
- **SLAP GO HEGAR** £4.60 (C)
- **CROESHOELIWCH FI** £1.55 (C)

CANOL CALED - **YR HAWL I FYW** £2.05 (S)

CEFFYL PREN - **ENNILL DROS GYMRU 12"** £3.80 (S)

CELT - **CYNFFON** £4.00 (C)

CERRIG MELYS - **CERRIG MELYS** £3.60 (C)
- **EIN DWYLO ALLTUD** £4.60 (C)
- **CAU DY LYGAID** £3.10 12"

CUT TUNES - **POBL Y NADROEDD** £3.60 (C)

CWRW BACH - **TAMEIDIAU** £2.55 (C)

CYNGHORWYR - **FFIDLAN** £5.10 (C)

DATBLYGU - **BLWCH TYMER TYMOR** £4.70 (C)

DEREC BROWN - **HANES Y BYD** £5.10 (C)

DIEMS - **GOBAITH** £4.70 (C)

DYFED EDWARDS - **DECHRAU** £2.45 (C)
- **SWN TAWEL TRISTWCH** £2.05 (C)

DYLAN DAVIES A'R CRIW - **DYLAN DAVIES A'R CRIW** £4.10 (C)

EIRIN PERYGLUS - **TROSGYNNOL** £3.40 (C)
- **MERTHYR** £2.05 (S)
- **EIRIN PERYGLUS 12"** £3.40 (S)

FFA COFFI PAWB - **ALLAN O'I PHEN 12"** £3.40 (S)
- **FFA COFFI PAWB 12"** £3.60 (S)
- **CLYMHALIO** £6.10

FFA COFFI PAWB / TERRY WAITE - **FFLECSI** £1.00 (S)

FFLAPS - **AMHERSAIN** £4.60(LP)
- **MALLTOD** £5.95 (LP)
- **DILYN DYLAN** £2.05 (S)

GERAINT GRIFFITHS - **ARARAT** £6.15 (C)

GERAINT LOVGREEN - **OS METS** £6.15 (C)
- **ENLLIB** £5.10 (C)

GWEFRAU - **GWEFRAU 12"** £4.10 (12")

GWRTHEYRN - **SYCH AR Y SUL** £6.15 (C)

HEB GARIAD - **CANEUON O'R DE** £2.05 (S)

HEFIN HUWS - **HEFIN HUWS** £4.10 (C)
- **CAE CHWARAE** £3.50 (C)

HUW CHISWELL - **RHYWBETH O'I LE** £6.15 (C)
- **RHYWUN YN GADAEL** £6.15 (C)

JESS - **HYFRYD I FOD YN FYW** £5.99 (C) £9.50 (CD)
- **JESS** £3.10 (C)
- **JULIA GITAR** £2.05 (S)
- **Y GATH** £3.10 (C)

JINA - **Y LLWYBR** £3.10(C)

JOHN GRINDELL - **PAID A GADAEL CYMRU** £4.10 (C)

LLE ANGHYSBELL - **TRYLEDIAD** £4.60 (C)

LLWYBR LLAETHOG - **PAM 12"** £3.60 (EP)

LL.LL. v TY GWYDR MCDRE - £6..10 (C) a (R)

LMR - **BYW YMYSG Y FWLTURIAID** £4.70 (C)

GERAINT LOVGREEN - **OS METS** £6.15 (C)
- **ENLLIB** £5.10 (C)

MABSANT - **COFEB** £6.15 (C)
- **TON GRON** £6.15 (C) £9.50 (CD)

MAE FI GYN - **GARIJAM** £2.65 (C)

MAFFIA - **AWE FO'R MICSAR** £4.60 (C)
- **DA NI'M YN RHAN** £5.10 (C)
- **TWTHPEST OSON FFRENDLI** £4.85 (C)

MISTECS - **POBL DIGWILIDD** £4.60 (C)

MOJO - **RHYDD RHYW DDYDD** £6.15 (C)
- **AWN YMLAEN FEL HYN** £6.65(C)

NEIL ROSSER A'R PARTNERIAID - **SIONI BOB OCHR** £4.60 (C)
- **FFORDD NEWYDD GYMREIG O FYW** £2.55 (C)
- **OCHR TREFORUS O'R DRE** £6.10 (C)

NEU UNRHYW DECLYN ARALL - **NEU** £3.40 (C)

NID MADAGASCAR - **LLEDRITH LLIW** £3.60 (12")

NYAH FEARTIES - **BARASSIE** £2.05 (S)

PLANT BACH OFNUS - **AWST / LLWYD** £2.05 (S)
- **ISHARMONIG 12"** £3.75 (E.P.)
- **SYMUDIAD YMDDANGOSOL Y LLEUAD** £4.10 (C)

POP POSITIF - **POP POSITIF** £2.05 (S)

PRY CLUSTIOG - **FY NGWLAD FY HUN** £5.10 (C)

PYW DALL - **DIM HEDDWCH** £3.60 (C)

RAY JONES - **MILLTIROEDD** £5.10 (C)

SIAN JAMES - **CYSGODION KARMA** £6.15 (C)

SOBIN A'R SMAELIAID - **SOBIN A'R SMAELIAID** £9.70 (CD)

STEVE EAVES - **SBECTOL DYWYLL** £5.50 (C)
- **TIR NEB** £2.75 (C)
- **PLANT POBL ERAILL** £6.65 (C)

TRADDODIAD OFNUS - **RHIF 2 12"** £3.80 (EP)

TY GWYDR - **YR UNIG ATEB** £4.10 (12")
- **EFFEITHIOL** £6.10

TYNAL TYWYLL - **JACK KEROUAC** £2.05 (S)
- **BYW TALU** £3.50 (C)
- **TELYN WEDI TORRI** £2.05 (S)
- **TYNAL TYWYLL** £2.05 (S)

U THANT - **BUGEILIO** £5.60 (LP)
- **U THANT 12"** £4.00 (EP)

WENFFLAM / MASNACH RHYDD
- **WENFFLAM / MASNACH RHYDD** £4.10 (C)

Y CELFI CAM - **BLE AETH HELMUT?** £2.00 (C)

Y CYRFF - **LLAWENYDD HEB DDIWEDD** £6.10 (LP) (C)
- **CYMRU LLOEGR A LLANRWST 12"** £4.85 (EP)
- **HWYL FAWR HEULWEN** £2.05 (EP)
- **AWDL O ANOBAITH** £4.60 (C)
- **YR HAINT** £2.05 (S)
- **PUM MUNUD** £2.05 (S)

Y JECSYN FFEIF - **ANNIBYNIAETH BARN** £5.10 (C)

Y LLYGAID - **Y CASET DU** £3.40 (C)

YR ORSEDD - **X** £3.40 (C)

CRYSAU T **EIRIN PERYGLUS** - £6.15

**BAMBW** - £5.60 **Y FFLAPS** -£6.15 **12:45** - £3.10

***PRISIAU YN CYNNWYS TRETH AR WERTH 17.5% A CHLUDIANT***

---

Amgaeaf siec / archeb post yn daladwy i **CYTGORD**
am £................ fel tal am..........................................
..............................................................................
ENW..........................................................................
CYFEIRIAD................................................................
.............................................................................TAXI.

**Anfonwch i : CYTGORD, 8 RHES VICTORIA, BETHESDA, GWYNEDD LL57 3AG.**

***FE ALL ARCHEBION GYMERYD HYD AT 21 DIWRNOD I'CH CYRRAEDD!***

**Eirin**
**Peryglus.**
**Ffrwyth**
**Dyw**
**Rhieni**
**Ddim**
**Am**
**I'w**
**Rhieni**
**'Flasu.**

Fideo 9
8.55pm
nos Fawrth
o 8 Medi



Cynhyrchiad Criw Byw ar
S4C